
Cod Ymarfer Cyflymder Band Eang 2022

Diweddariad i'r Codau Ymarfer Preswyl a Busnes
Gwirfoddol ar Gyflymder Band Eang

Datganiad

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 21 Medi 2022

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

2

1. Trosolwg

Mae gan Ofcom godau ymarfer gwirfoddol ar gyflymder band eang ar gyfer cwsmeriaid preswyl a busnes, sy'n rhoi'r hawl iddynt adael eu contract band eang a gwasanaethau wedi'u bwndelu, heb gosb, os bydd eu cyflymder lawrlwytho yn mynd yn is na'r isafswm cyflymder gwarantiedig a gynigiwyd iddynt gan eu darparwr.

Ym mis Mai 2022, bu i ni gyhoeddi ymgynghoriad ar ddiweddaru'r codau hyn fel bod yr hawl i adael sy'n berthnasol i fand eang a gwasanaethau wedi'u bwndelu eraill yn cyfateb i Amodau Hawliau Cyffredinol diwygiedig Ofcom (yr AC diwygiedig).

A ninnau wedi adolygu'r ymatebion i'n hymgyngoriad ym mis Mai 2022 a'u cymryd i ystyriaeth, rydym wedi penderfynu diweddaru'r codau, gyda'r diweddariadau hyn yn dod i rym ar 21 Rhagfyr 2022, fel y crynhoir isod.

Beth rydym wedi penderfynu

Diweddaru diffiniad y Cod Preswyl o fwndel. Rydym wedi penderfynu diwygio'r diffiniad o fwndel yn y Cod Ymarfer Cyflymder Band Eang Preswyl (y 'Cod Preswyl') fel y bydd hawl y cwsmer i adael yn berthnasol i'w fand eang a'i wasanaethau wedi'u bwndelu yn yr un modd ag y bydd eu hawl i adael yn berthnasol i'w contract a'u gwasanaethau wedi'u bwndelu fel y nodir yn yr AC diwygiedig.

Diweddaru diffiniad y Cod Busnes o fwndel ar gyfer busnesau bach. Ar gyfer busnesau bach (y rhai â deg neu lai o gyflogion), yn debyg i'r Cod Preswyl, rydym wedi penderfynu diwygio'r diffiniad o fwndel yn y Cod Ymarfer Cyflymder Band Eang Busnes (y Cod Busnes). Bydd hyn yn golygu, i fusnesau bach, y bydd eu hawl i adael yn berthnasol i'w gwasanaethau band eang ac wedi'u bwndelu yn yr un modd ag y bydd eu hawl i ymadael yn berthnasol i'w contract a'u gwasanaethau wedi'u bwndelu fel y nodir yn yr AC diwygiedig.

Cadw, o fewn y Cod Busnes, y diffiniad presennol o fwndel ar gyfer busnesau mwy. Ar gyfer busnesau mwy, rydym wedi penderfynu cadw diffiniad y Cod Busnes presennol o fwndel er mwyn sicrhau bod y mesurau diogel presennol yn parhau.

Amserlen ar gyfer rhoi'r penderfyniadau hyn ar waith. Rydym wedi penderfynu y dylid gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio â'r diwygiadau i'r Codau gan lofnodeion presennol **o fewn tri mis** i ddyddiad y datganiad hwn h.y. erbyn 21 Rhagfyr 2022. ¹

Bydd y penderfyniadau hyn yn helpu i ddarparu set gyson o reolau (yn seiliedig ar yr AC diwygiedig) sy'n ymwneud â bwndeli a phwy y maent yn berthnasol iddynt, gan eu gwneud yn haws i gwsmeriaid eu dilyn ac yn symlach i ddarparwyr band eang eu gweithredu. Dylai'r symleiddiad hwn leihau'r tebygolrwydd o gamddealltwriaeth neu gamddehongli os bydd anghydfod yn codi, er budd cwsmeriaid a darparwyr band eang.

¹ Y llofnodeion presennol, y bydd y codau diwygiedig yn berthnasol iddynt ar yr adeg y byddant yn dod i rym, yw: BT Consumer (preswyl), BT Enterprise (busnes), Daisy (business), EE (preswyl), Plusnet (preswyl), Talk Talk (preswyl a busnes), Utility Warehouse (preswyl), Virgin Media (preswyl a busnes), XLN (busnes), a Zen internet (preswyl a busnes).

Y camau nesaf

Bydd y codau diwygiedig yn dod i rym ar 21 Rhagfyr 2022 a byddwn yn monitro gweithrediad a chydymffurfiaeth llofnodeion â'r codau diwygiedig yn y dyfodol.